GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

Y GRŴP

mwy nag addysg yn unig



Y GRŴP

Daeth Grŵp Colegau NPTC i fodolaeth ar 1 Awst 2013. Cafodd ei ffurfio o ganlyniad i uno Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys. Grŵp Colegau NPTC yw un o'r grwpiau mwyaf o golegau a darparwyr addysg yng Nghymru o ran niferoedd myfyrwyr ac mae ganddo drosiant blynyddol o tua £55 miliwn. Mae Grŵp Colegau NPTC yn darparu bron pob maes galwedigaethol o addysg a hyfforddiant, gan gynnwys Academi 6ed Dosbarth eithriadol yng Ngholeg Castell-nedd. Mae'r Grŵp yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer diwydiant a busnes ym mhob cwr o Gymru a Lloegr drwy gyfrwng yr Uned Datblygu Busnes. Hefyd mae'r Coleg yn ddarparwr arweiniol ac yn ddeiliad contract yn Academi Sgiliau Cymru. Mae hon yn bartneriaeth rhwng wyth darparwr hyfforddiant profiadol iawn sy'n darparu rhyngddynt gontract dysgu seiliedig ar waith gwerth £12.5 miliwn, un o'r contractau sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. Hefyd mae'r Grŵp yn rheoli ac yn berchen ar ysgol iaith ryngwladol yn Hampshire, LSI Portsmouth. Mae'r ysgol wedi cael ei hasesu'n annibynnol fel "rhagori ar ddisgwyliadau ym mhob maes" yn arolwg diweddar ISI ar Golegau Addysg Bellach preifat. Mae yn rhif 1 yn y DU ac mae miloedd o fyfyrwyr o dramor yn mynychu'r Coleg o bron i 50 o wahanol wledydd, o'r UE ac ymhellach.

Mae'r Grŵp yn darparu ar gyfer traean o dir Cymru. Mae'n gweithredu mewn pedair prif ganolfan fawr: Coleg Afan, Bannau Brycheiniog, Coleg Castell-nedd a Choleg y Drenewydd. Hefyd mae gan y Grŵp ganolfannau llai yn cynnwys: Coleg Pontardawe; Canolfan Adeiladwaith Maesteg; Canolfan Adeiladwaith Abertawe; Campws Llandrindod; ac Academi Chwaraeon gwbl fodern ym Mharc Llandarsi. Yn ddaearyddol, mae hyn yn golygu bod tua 100 milltir rhwng ein campws pellaf i'r gogledd a'n campws pellaf i'r de. Fodd bynnag, mae ein his-gwmnïau hefyd yn gweithredu mewn lleoliadau amrywiol yn Abertawe, Llandarsi, Llanelli, Swindon a Portsmouth.

DARPARIAETH

Mae gan Grŵp Colegau NPTC raglen addysg prifysgol wych a gyflwynir mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, y Brifysgol Agored, Prifysgol Glyndŵr a Pearsons. Rydym yn cyflwyno gwahanol raddau BSc (Anrh) a BA (Anrh), Graddau Sylfaen, HNDs, tystysgrifau Addysg Uwch, y Dystysgrif Addysg (PCE) a'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).
Mae data cyflawniad llwyddiannus sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru yn dynodi bod Grŵp Colegau NPTC yn cael rhai o'r canlyniadau gorau yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

LLWYDDIANT ARHOLIAD

Unwaith eto llwyddodd myfyrwyr Grŵp Colegau NPTC i gael y marciau uchaf yn eu harholiadau Safon Uwch a chymwysterau Diploma Cenedlaethol ac Estynedig.

Mae ein cyfradd lwyddo gyffredinol wedi rhagori ar 99 y cant yn ystod 13 allan o'r 14 mlynedd ddiwethaf. Mewn 26 o bynciau, sicrhaodd y myfyrwyr gyfradd lwyddo nodedig o 100 y cant. Sicrhaodd bron i bum deg y cant o'r myfyrwyr oedd yn sefyll arholiadau Safon Uwch raddau A* i B a sicrhaodd 77 y cant o'r myfyrwyr raddau A* i C.

Unwaith eto mae'r gyfradd lwyddo yn y Coleg wedi rhagori ar y meincnod cenedlaethol ac mae'r staff yn falch o'r myfyrwyr a ddilynodd y rhaglen Dawnus a Thalentog (GATE) yn Academi Chweched Dosbarth Castell-nedd Port Talbot lle sicrhaodd 100 y cant o'r myfyrwyr raddau A* i B ac 85% y cant o'r myfyrwyr hynny wedi sicrhau gradd A* neu A.

Mae gan y Grŵp ymrwymiad cadarn i ddatblygu'r agweddau dwyieithog ar ei bortffolio ac mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn sbarduno'r cyfeiriad hwn drwy arweinyddiaeth ein Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd.

Mae gan y Grŵp enw rhagorol am: canlyniadau academaidd; ansawdd yr addysgu a'r dysgu; ei gefnogaeth i'r myfyrwyr; ei waith gyda diwydiant a'i waith yn y gymuned. Mae hefyd yn enwog yn genedlaethol am lwyddiant chwaraeon ei fyfyrwyr presennol ac yn y gorffennol ac am gyflawniadau ei fyfyrwyr arlwyo yn ennill sawl cystadleuaeth genedlaethol.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cyflwyno Astudiaethau Tir-Seiliedig o Fferm Fronlas yn y Drenewydd a Fferm Cefn Y Bryn yn Sarn. Mae'r campws addysgu a phrif gampws y fferm wedi'u lleoli lai na 0.5 milltir o Goleg y Drenewydd. Mae'r ardal addysgu'n cynnwys bloc addysgu a gweinyddu modern wedi'i adeiladu i

bwrpas a gafodd ei newid yn 2005. Mae'r bloc yn rhoi mynediad i bedair ystafell addysgu, ystafell TG, ystafelloedd cotiau a chawod, ystafell gyffredin a chyfleusterau swyddfa i staff. Hefyd mae gofod gweithdy sylweddol ar gael ar gyfer y ddarpariaeth peirianneg amaethyddol a pheiriannau amaethyddol.

Mae Fronlas yn y Drenewydd yn 65 hectar ac yn laswelltir yn bennaf gyda phump i chwe hectar o rawngnydau wedi'u tan-hadu a dyfir yn flynyddol. Mae'r uned hon yn darparu tir pori ar gyfer y fuches o fuchod sugno sy'n geni lloi yn y gwanwyn a dyma'r brif ardal ar gyfer cadw bwyd y gaeaf. Mae rhyw 30 hectar yn silwair cnwd cyntaf a thua 20 hectar yn ail gnwd. Mae ardal y fferm yn cynnwys ardaloedd bychain o goetir, glannau serth, glan afon, llwybrau troed, cloddiau ac Ardal Geltaidd. Mae'r rhain yn cael defnydd da fel rhan o brosiectau cefn gwlad amrywiol.

Mae gennym bolisi 'coleg cynhwysol' ar waith ac rydym yn darparu ar gyfer myfyrwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu o bob oedran. Mae'r myfyrwyr yn dilyn rhaglenni cyn-alwedigaethol priodol neu gyrsiau prif ffrwd. Mae gwasanaethau arwain a chefnogi myfyrwyr helaeth yn gweithredu ar y pedwar prif gampws ac mewn lleoliadau cymunedol amrywiol. Mae'r Grŵp wedi derbyn Dyfarniad Ansawdd Gyrfa Cymru am addysg a chyfarwyddyd gyrfaol. Hefyd rydym wedi ennill Statws Dyfarniad Beacon ddwywaith. I ddechrau, am ddarparu Addysg Busnes, drwy'r cwmnïau ymarfer busnes, sydd eisoes wedi ennill dyfarniadau rhyngwladol yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Yn ail, am y gefnogaeth eithriadol rydym yn ei darparu i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

CYFLEUSTERAU A DATBLYGIADAU

Mae rhaglen ad-drefnu ac adeiladu stad fawr wedi cael ei rhoi ar waith ar gyfer y Grŵp yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf. Yng Nghastell-nedd, cwblhawyd yr adeilad newydd cyntaf yn 1997 pan agorwyd y bloc addysgu newydd mawr ac ategwyd hwn ym mis Mai 2004 drwy agor Canolfan Ddysgu Electronig gwerth £6.5m sy'n gartref i nifer o feysydd galwedigaethol ac academaidd a hefyd canolfannau adnoddau dysgu aml-bwrpas helaeth ar dri llawr. Ar y pryd, hwn oedd y buddsoddiad mwyaf mewn adeiladau addysg yng Nghymru. Yn yr un flwyddyn, agorwyd Academi Chwaraeon Llandarsi o ganlyniad i fuddsoddiad cyhoeddus/preifat gwerth miliynau. Agorodd y Grŵp theatr celfyddydau perfformio gwerth £2.2m yng Nghastell-nedd yn 2008, gyda gofod arddangos ac ymarfer a dwy stiwdio 'bocs du' aml-bwrpas. Mae'r theatr yn cael ei defnyddio gan y myfyrwyr, disgyblion ysgol a'r gymuned. Yn 2009, agorwyd ffreutur newydd "Brook" gwerth £1m gan ddarparu lle arall i fyfyrwyr fwyta ac ymlacio. Yn 2010, agorwyd Academi Awtotroneg newydd gennym ym Mhontardawe mewn partneriaeth â "Snap-on Tools" yr arweinydd ym maes arweinydd ym maes awtotroneg. Mae hwn yn gyfleuster gwych ac yn ganolfan ragoriaeth.

Cwblhaodd y Grŵp estyniad gwerth £8.5m ar y cyfleuster chwaraeon yn Academi Chwaraeon Llandarsi yn 2012. Mae hwn yn darparu arena cwrt caled ar gyfer pêl rwyd a phêl fasged ac ati, gyda lle i 150 o wylwyr eistedd, man gemau aml-ddefnydd y tu allan, trac 60m dan do chwe lôn, cae artiffisial trydydd cenhedlaeth awyr agored wedi'i gymeradwyo gan IRB, wal ddringo, gofod ystafell ddosbarth, ystafell TGCh a llyfrgell. Mae gennym ni gysylltiadau gwych â Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol a thimau chwaraeon proffesiynol fel y Gweilch a Chlwb Pêl Droed Dinas Abertawe.

Mae bloc A/B Coleg Castell-nedd ar Heol Dŵr-y-Felin, sy'n cael ei adnabod fel ein hadeilad mathemateg a gwyddoniaeth, wedi cael ei drawsnewid yn llwyr. Mae adnewyddu'r tri llawr wedi cynnwys estyniad gwydrog newydd a rhoi cladin newydd ar yr adeilad presennol i gyd.

Mae'r tu mewn wedi cael ei drawsnewid yn llwyr gyda hwb myfyrwyr newydd cynllun agored lle gall y myfyrwyr a'r staff weithio neu ymlacio. Mae gan y cyfleuster hynod fodern allu sgrin gyffwrdd, Wi-Fi am ddim a mannau gwefru, yn ogystal â siop goffi Starbucks a chyfleusterau arlwyo, a lifft i sicrhau mynediad i'r lloriau uchaf. Mae'r adnewyddu cynaliadwy wedi gwella effeithlonrwydd ynni ar Goleg Castell-nedd hefyd, yn unol ag ymrwymiad y Coleg i wella defnydd o ynni a lleihau allyriadau CO2. Enillodd y gwaith adnewyddu wobr nodedig Adeiladau Addysg 2019 ar gyfer y "profiad gorau i fyfyrwyr".

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp yn rhan o ddau gynllun adeiladu cyffrous sy'n mynd ati i drawsnewid addysg yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Aberhonddu. Yn Aberhonddu, mae cynlluniau i Grŵp Colegau NPTC weddnewid sawl adeilad yng nghanol y dref ar gost o filiynau o bunnoedd. Mae'r gwaith wedi dechrau gydag adnewyddu'r Ganolfan Gwybodaeth i Dwristiaid i fod yn lleoliad cymunedol.



Ym Mhort Talbot, y bwriad yw adeiladu campws newydd fel rhan o ddatblygiad yr Harbwr a chynllun adfywio ar gyfer Port Talbot. Mae hyn yn rhan o'r datblygiad eang yn gysylltiedig â'r ffordd ddosbarthu berifferal gwerth £110m a Gorsaf Reilffordd newydd gwerth £10m Parkway.

Bydd y campws newydd yn gartref i ddarpariaeth Afan ar hyn o bryd, gan gynnwys ein canolfannau rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'n Gwasanaethau Pperianneg Adeiladu Bydd Therapïau Gwallt, Harddwch a Chyfannol yn cael eu lleoli mewn adeilad "ffordd o fyw". Bydd yr adeilad yn cael ei weithredu fel busnes hunangynhaliol sy'n darparu sector gwasanaethu allweddol i ganol y dref. Bydd y prif adeiladau addysgol yn adnodd cwbl fodern sy'n darparu ar gyfer yr holl addysg Chweched Dosbarth ym Mhort Talbot, gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ni fydd cyfleusterau ffreutur traddodiadol yn rhan o'r datblygiad, ond bydd yn cynnwys siop goffi arbenigol ar ryddfraint. Yn hytrach, bydd y 1,000 o fyfyrwyr y dydd yn defnyddio canol y dref ym Mhort Talbot, gan ddarparu bywyd a buddsoddiad y mae eu gwir angen yn yr ardal.

MASNACHOL

Mae ein hincwm masnachol yn gynyddol bwysig i'r Grŵp ac rydym yn edrych ar nifer o ffyrdd o ddenu incwm di-graidd. Darperir hyfforddiant i gyflogwyr gan gangen masnachol y Colegau o dan yr Uned Datblygu Busnes. Hefyd rydym yn llwyddiannus iawn yn tendro am waith drwy'r Gronfa Blaenoriaethau Sector a thendrau agored eraill. Mae hon yn rhan lwyddiannus ac amrywiol o'r Grŵp sy'n gweithredu'n gwbl fasnachol heb gefnogaeth cyllid craidd. Gellir dod o hyd i'n gwybodaeth am gwrs masnachol trwy fewngofnodi i www.nptcgroup.ac.uk/business.

Hefyd mae'r Grŵp yn gweithredu Hafren, y prif leoliad theatr, cynhadledd a chyfarfod yn y Drenewydd, canolbarth Cymru. Gyda lle i 556 o bobl, ar ddull cynhadledd, mae gan yr awditoriwm gyfleusterau llwyfan a goleuo llawn, seddau ar ogwydd, system sain gynwysedig a dolen sain ar gyfer pobl â cholled clyw. Mae gwasanaeth technegol proffesiynol llawn ar y safle'n sicrhau'r sain, y goleuo a'r cyflwyno gorau mewn digwyddiadau. Gydag arlwyo addas i'r holl ofynion, mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd proffesiynol a busnes, sy'n hyblyg o ran croesawu amrywiaeth eang o niferoedd, o 50 a mwy. Gellir defnyddio oriel – bar y theatr fel man cyfarfod bychan (hyd at 20 o bobl), gofod arddangos, ystafell grŵp neu ar gyfer arlwyo / lluniaeth. Hefyd mae Cyntedd y lleoliad ar gael ar gyfer derbynfa ac arddangosfeydd bychain.

Mae casgliad o bum ystafell cynhadledd/cyfarfod ar gael gyda lle i rhwng 10 a 70 o bobl. Gellir defnyddio'r cyfleusterau yma fel ystafelloedd ychwanegol ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Hafren.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Fel Grŵp o Golegau, rydym wedi ymrwymo i weithio drwy bartneriaethau real ac effeithiol gyda llawer o sefydliadau eraill. Mae gennym berthynas waith gadarn iawn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae'r gwaith partneriaeth ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cael ei ystyried fel esiampl ragorol yng Nghymru. Ym Mhowys, mae gennym berthynas effeithiol iawn gyda Chyngor Sir Powys, Busnesau canolbarth Cymru, consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith Canolbarth Cymru a Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru.

Mae'r Grŵp o Golegau yn cael ei arwain gan Uwch Dîm Rheoli cadarn ac amrywiol. Mae'r uwch reolwyr wedi gweithredu gan gadw at ymdeimlad cadarn o dîm erioed gan gefnogi ei gilydd ac ysgwyddo cyfrifoldeb unigol a chasgliadol am ddatblygiad strategol a gweithrediaeth gyffredinol y Coleg. Mae'r Uwch Dîm yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Academaidd; Yr Is Bennaeth – Gwasanaethau Corfforaethol; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Ariannol; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Gweithredol a'r Penaethiaid Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethu; Ansawdd; Cwricwlwm, Myfyrwyr; Recriwtio Myfyrwyr; AU; Gweithrediadau Byd-eang a Sgiliau.

Mae gwaith yr uwch reolwyr yn cael ei gefnogi gan grŵp o uwch reolwyr canol. Mae'r unigolion hyn yn rheolwyr unedau academaidd a swyddogaethau allweddol sy'n gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng y parthau strategol a gweithredol. Mae'r Coleg yn ymfalchïo yn ei gymwysterau uchel a phrofiad yr holl staff, gan gynnwys darlithwyr, aseswyr, hyfforddwyr a'r holl staff cefnogi busnes hanfodol.

GRŴP COLEGAU NPTC
GROUP OF COLLEGES

Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd
Ffôn: 01639 648000 • www.nptcgroup.ac.uk

mwy nag addysg yn unig